

## ❖ ‘O TYRED DI, EMANŴEL’

‘Ydych chi’n barod erbyn y Nadolig?’

Dyna’r cwestiwn a glywir yn yr wythnos neu ddwy cyn yr ŵyl. Ac wrth hynny yn naturiol beth a olygir yw a yw popeth wedi ei gael i mewn, ac a ydy’r cardiau wedi eu postio! Erbyn y dydd ei hunan mae pobun yn falch fod y siopau ynghau a’r strydoedd yn dawelach – wel, yn dawel am ddeuddydd neu dridiau cyn eu bod yn agor eto i gynnig gostyngiadau a rhoi cyfle i’r siopwr doeth ddechrau paratoi ar gyfer y Nadolig nesaf! Oes, mae tipyn o hwyl yn y paratoi hwn ac yn yr ymlacio dros yr ŵyl, a da o beth yw cael Apêl y Plant Mewn Angen cyn i’r prysurdeb ein byddaru’n llwyr. Mae’n galonidd gweld nad yw boddio hunan bob amser yn cael y flaenoriaeth ar foddio eraill, a bod cymaint o haelioni yn dal yn y tir!

I ddod ’nôl at y pwynt dan sylw, a ydym ni’n barod ar gyfer y Nadolig? Efallai bod perygl inni feddwl mwy am NADOLIG y Crist nag am GRIST y Nadolig! Gŵyl ‘y dyfod’ yw’r Nadolig, ac mae’r Crist yn dyfod o hyd. Daw atom fel unigolion, a daw atom fel cenedl – a ydym yn barod? Dywedodd Ioan iddo ddod at yr eiddo ei hun a’r eiddo ei hun nis derbyniasant Ef! Yn un o’i ddamhegion dywed Iesu fod pobl yn ymesgusodi rhag derbyn y gwahoddiad i’r wledd fawr, ac fel y gwyddoch o ddarlenn y ddameg (Luc 14:15–24), esgusodion digon gwan oedd ganddynt – roedd un wedi prynu cae ac am fynd i’w weld ac un arall wedi prynu cymaint â phum pâr o ychen ac am fynd i’w profi – sôn am brynu cath mewn cwd! Mae esgus y llall efallai ychydig yn gryfach – ‘Rwyf newydd briodi, ac am hynny ni allaf ddod.’ Mae’r partner yn bwysig on’ d ydy? Mae priodasau – hyd yn oed priodasau capel – wedi colli llawer dawn addawol i’r eglwys! Ond dyna fe, pwnc arall ydyw hynny! Dweud yr oeddem bod paratoi ar gyfer ‘y dyfod’ yn beth mawr. Dyfodiad Iesu Grist yw’r dyfodiad mwyaf tyngedfennol yn hanes dyn, ac fe ddaw o hyd ac o hyd, ond a ydym ni’n barod? Un o’r emynau cyfoes sydd wedi gafael yng Nghymru yw ‘O tyred i’n gwaredu, Iesu da’. Mae John Roberts, Llanfwrog, wedi mynegi dyhead dwfn mewn ffordd effeithiol dros ben. Mae arnom angen dyfodiad y Gwaredwr, ond mae hynny yn golygu paratoi’r ffordd iddo.

Ond beth yw’r paratoi hwn? Sut y gallwn ni baratoi’r ffordd i’r Brenin?

**1. Trwy gredu’r addewid ei fod yn nesáu ac yn dyfod atom.** Roedd yno rai yn Israel a oedd yn credu addewid Duw am un a ddeuai yn athro ac yn arweinydd i’r bobloedd. Un y byddai Ysbryd yr Arglwydd arno ac a gyhoeddai ollyngdod a rhyddid. Pa ddisgwyl gobeithiol sy’n bosibl o gwbl heb fod dyn yn credu’r addewid? Roedd y broffwydes Anna a’r offeiriad Simeon wedi hir ddisgwyl am eu bod yn credu’r addewid. Roedd y bugeiliaid a’r doethion yn credu’r arweiniad a gawsant. Mae angel neu seren rywbyrd neu’i gilydd ym mhrofiad pob un ohonom, ond gwranddo neges yr angel a derbyn arweiniad y seren a’n tywys at y Crist. Credu bod yno ‘gariad na’m gollyngi i’ yw deuparth bod yn barod pan ddêl. ‘A Mab y Dyn pan ddêl, a gaiff efe ffydd ar y ddaear?’

**2. Trwy symud y rhwystrau y mae paratoi ffordd y Brenin.** Mae popeth anghymeradwy ac anghydnaws yn cael ei symud i’r naill ochr os yw Ef i ddod i mewn. Gellir meddwl am lawer o bethau felly sy’n rhaid eu sgubo o’r ffordd. Mae’n rhaid i fyfiaeth, er enghraifft, fynd i’r naill ochr. Dyw bywyd sy’n llawn o hunan ddim yn gadael lle i neb arall ac, yn y pen draw, bywyd gwag yw’r bywyd sy’n llawn o hunan, oblegid mae bywyd go iawn yn cynnwys y ‘myfi, tydi, Efe’! Rhwystr arall i’w symud yw rhagfarnau. Does gan neb fonopoli ar y Gwaredwr. Er bod hyd yn oed Cristnogion wedi erlid ei gilydd yn enw crefydd, egwyddor y Groes sy’n penderfynu pwy sydd ar du’r Arglwydd. Rhybuddiodd Iesu y gallai dyn ddweud ‘Arglwydd, Arglwydd’, ond heb iddo ef erioed ei adnabod. Rhagfarn yw meddwl mai dim ond y ‘fel a’r fel’ y daw Ef ac y bydd ef yn gweithredu. ‘Pwy a gredodd i’r hymadredd?’ medd y proffwyd – doedden nhw erioed wedi breuddwydio mai fel hyn y deuai. Mewn man arall dywed yr un proffwyd bod rhaid newid cyfeiriad a chlirio’r ffordd o feddyliau annhebyg ac anghydnaws. ‘“Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd.”’ Felly mae’n rhaid i’r drygionus adael ei ffyrdd a’r gŵr anwir ei feddyliau!

**3. Trwy ddiogelu’r croeso.** Faint ohonom sydd wedi addo i rywun – galwch unrhyw bryd, bydd llond lle o groeso? Dyna groeso sydd i’r meddyg pan fo salwch, ac i’r cyfaill pan fo gofid! Rydym ninnau am iddo Ef ddod. Veni Emanuel! ‘O tyred i’n gwaredu, Iesu da’. *Fe* ddaw fel y daeth ym Methlehem. *Fe* ddaw fel y daeth y trydydd dydd. *Fe* ddaw fel y daeth ddydd y Pentecost. *Fe ddaw* a gorffen ei greadigaeth newydd.

O cân, O cân: Emanŵel  
ddaw atat ti, O Isrâel.

Raymond Williams